# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 19eg Medi, 2016 at 9.30 am

**PRESENT:** County Councillors: D. Edwards, D. Evans and P. Jordan

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Doedd dim datganiadau o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mehefin 2016 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsman.**

Fe gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol 2015/16 yr Ombwdsmon i'r pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro.

Wrth wneud hynny, fe nodwyd bod yr adroddiad manwl yn darparu cymarebau defnyddiol gyda chynghorau eraill yng Nghymru, ynghyd â Chynghorau Trefi a Chymunedau.

Nododd aelodau bod nifer y cwynion wedi gostwng, gan eithrio'r GIG, ac roedd hyn yn arwydd da i gynghorau. Roedd nifer y cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad hefyd wedi gostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn, ac eithrio Cynghorau'r Cymunedau ble roedd cwynion yn erbyn aelodau wedi cynyddu 48%. Fe nodom na fod gan fwyafrif y Cynghorau Trefi a Chymunedau god mewnol er mwyn datrys y mân gwynion 'aelod ar aelod'.

Roedd y Llythyr Blynyddol yn darparu amlinelliad o'r cwynion, a honiadau Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Sir Fynwy. Nodwyd fod Cyngor Sir Fynwy yn is na chyfartaledd awdurdodau lleol Cymru o ran nifer y cwynion, ac fe awgrymwyd mai gwall teipio oedd y ffigurau a nodwyd yn y llythyr blynyddol.

Fe longyfarchwyd Cynghorwyr Cyngor Sir Fynwy gan y Cadeirydd am ddilyn y Cod Ymddygiad a oedd wedi cael ei brofi gan y nifer isel o gwynion.

Canmolwyd y Swyddog Monitro gan y Cadeirydd am y cyngor a hyfforddiant a ddarparwyd i Aelodau.

Cyfeiriodd aelod o'r pwyllgor at dudalen 17 o'r adroddiad a chwestiynodd a oedd unrhyw un o'r achosion wedi cael eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau arall. Mewn ymateb i hyn fe glywsom na fod

y swyddog yn ymwybodol o unrhyw achlysuron o hyn o fewn Ardal Gwent Fwyaf. Fe gytunodd i ofyn y cwestiwn yn un o gyfarfodydd Swyddogion Monitro Cymru-gyfan yn y dyfodol.

Fe ofynnodd aelod am wybodaeth o ran yr hyfforddiant cyffredinol sydd ar gael ar gyfer Cynghorau Cymunedol. Fe glywsom, yn gyffredinol, bod Clercod Cymunedol yn cysylltu â'r Swyddog Monitro i ofyn am hyfforddiant i aelodau, a bod hyn fel arfer yn cyd-fynd â chyflwyno aelodau newydd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai sesiynau hyfforddiant pellach yn digwydd i gyd-fynd ag etholiadau 2017. Byddai unrhyw wybodaeth am yr hyfforddiant yn cael ei rannu gyda'r Clercod Cymunedol.

Fe benderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad.

## 4. Adroddiad Cwynion Blynyddol Awdurdod Cyfan 2015/16.

Fe gyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro Adroddiad Cwynion Blynyddol yr Awdurdod Cyfan 2015/16, a oedd wedi cael ei baratoi gan y Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Nododd aelodau bod yr adroddiad wedi'i rannu'n gwynion, sylwadau a chanmoliaeth. Yn gadarnhaol, mae'r cyngor wedi derbyn llai o gwynion a mwy o ganmoliaeth eleni o'i gymharu â'r ddwy flynedd blaenorol.

Holodd aelod a oeddem yn gallu amcangyfrif y gost o ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Esboniwyd, pan fod disgwyl y byddai cais Rhyddid Gwybodaeth yn cymryd dros 20 awr o amser swyddog, y gellir gwrthod y cais. Nid oedd y cyfanswm yn hysbys. Os nad oedd aelod o'r cyhoedd yn fodlon gyda'r ateb, gallent fynd at y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu cyfarwyddyd a gwybodaeth ddefnyddiol.

Mewn ymateb i gais i gymharu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o'r wasg a'r cyhoedd, cawsom eich cyfeirio at dudalen 13 o'r adroddiad, sy'n nodi'r ffigurau fel a ganlyn:

Masnachol 39%
Y wasg – heblaw am bapurau lleol 17%
Ymgyrchydd 15%
Trigolyn Lleol 11%
Ymchwilwyr gwleidyddol 10%
Y wasg - lleol 2%
Popeth arall 6%

Cyfeiriodd aelod at gŵyn a dderbyniwyd gan etholwr, a'r canlyniad anfoddhaol. Fe gytunodd y Swyddog Monitro i drafod hyn ymhellach yn dilyn y cyfarfod.

Fe benderfynom nodi'r adroddiad.

## 5. Protocol ar gyfer Hunan-reoleiddio Ymddygiad Aelodau.

Fe dderbyniom adroddiad er mwyn diweddaru aelodau'r Pwyllgor Safonau ar ddefnydd y Protocol ar gyfer Hunan-reoleiddio Ymddygiad Aelodau.

Mae'r Ombwdsmon yn rhoi llawer o bwyslais ar sicrhau bod y protocolau hyn yn eu lle mewn cynghorau er mwyn datrys mân gwynion 'aelod ar aelod'.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 19eg Medi, 2016 at 9.30 am**

Mae'r protocol hwn wedi bod yn ei le ers 2013 ac yn ymwneud â'r system grŵp o fewn y cyngor. Nododd aelodau mai rôl aelodau'r Pwyllgor Safonau o fewn y protocol yw cefnogi a chynghori Arweinwyr Grŵp. Cwestiynwyd beth fyddai'r protocol pe byddai'r mater yn cynnwys Arweinydd Grŵp. Cynghorydd y Swyddog Monitro y gallai hynny ddynodi difrifoldeb y toriad honedig ac y dylid cyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon, neu efallai byddai dirprwy arweinydd y grŵp perthnasol yn gallu ymdrin â'r mater. O dan y Cod Ymddygiad, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am unrhyw honiadau o doriadau, ac fel gellir ei datrys o dan y protocol os yw o natur lefel isel.

Fe benderfynom nodi'r adroddiad.

**6. Nodi amser a dyddiad y cyfarfod nesaf fel Dydd Llun 28 Tachwedd, 2016 am 9.30am.**

Fe gynghorwyd y Pwyllgor gan y Swyddog Monitro bod hyfforddiant ar y gweill gyda Chyngor Tref Cil-y-Coed. Hefyd, y byddai'n mynychu cyfarfod gyda Swyddogion Monitro Cymreig eraill yn Llandrindod.

Mynegodd aelodau'r pwyllgor eu diolch a'u dymuniadau gorau i'r Cadeirydd, gan mai dyma fyddai ei chyfarfod olaf.

Fe nodom y byddai hysbysebion yn cael eu gosod ar gyfer y swyddi gweigion ar y Pwyllgor Safonau. Byddai panel cyfweld, yn cynnwys Arweinwyr Grŵp a'r Uchel Siryf, yn cael ei sefydlu, a fyddai'n gwneud argymhellion i'r Cyngor, a fyddai wedyn yn penodi i'r Pwyllgor Safonau.

Fe nodom ddyddiad ac amser y cyfarfod nesaf, sef dydd Llun 28ain o Dachwedd 2016 am 9.30am.

**The meeting ended at 10.30 am**